**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**16 MEDI 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dydd Iau, 16 Medi 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Richard Lloyd, Kevin Rush ac Andy Williams

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Paul Johnson ac Arnold Woolley

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Ian Roberts – Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Cynghorydd Billy Mullin – Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Corfforaethol ac Asedau, Cynghorydd Christine Jones – Dirprwy Arweinydd (Partneriaethau) ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Cynghorydd Dave Hughes – Aelod Cabinet Tai, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, Rheolwr Arloesi ac Adfywio, Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Cyllid.

Ar gyfer cofnod rhif 26
Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes (Siân Jones), Arweinydd Tîm Diogelwch Cymunedol (Richard Powell) a Chydlynydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Rhiannon Edwards)

Gwilym Bury a Matt Edwards o Swyddfa Archwilio Cymru

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 26. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 27. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 a 29 o Orffennaf 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Haydn Bateman a Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 28. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN

Roedd newid yn nhrefn y busnes i alluogi'r cyfranwyr i gyflwyno eu hadroddiadau yn gyntaf.

## 29. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr trosolwg blynyddol o weithgareddau a chynnydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn ofyniad statudol. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd trefniadau llywodraethu ar gyfer y CSP wedi cael eu dynodi i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a roedd ei ddyletswyddau wedi eu rhyddhau drwy'r Bwrdd 'Pobl yn Ddiogel', y mae eu gwaith wedi ei tanategu gan y cynllun cyflenwi lleol.

Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes (Siân Jones), Arweinydd Tîm Diogelwch Cymunedol (Richard Powell) a Chydlynydd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Rhiannon Edwards)

- Cyd-destun
- Grwpiau Cyflawni Diogelwch Cymunedol
- Blaenoriaethau lleol ar gyfer 2021/22:
    - Blaenoriaeth 1 - Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
    - Blaenoriaeth 1 – Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn
    - Blaenoriaeth 3 – Amddiffyn Pobl Ifanc Diamddiffyn
    - Blaenoriaeth 4 – Amddiffyn ein Cymunedau
- Trosedd ac Anhrefn yn Sir y Fflint– sefyllfa bresennol (o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol)
- Partneriaethau Rhanbarthol

Wrth groesawu'r adroddiad a'r cyflwyniad, cynigiodd y Cynghorydd Heesom yr argymhelliad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Haydn Bateman. Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr am eu presenoldeb.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi a chefnogi Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

## 30. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Blynyddol Swyddfa Rheoli Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-21. Roedd y gofyniad i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd yn rhan o Gytundeb Bargen Terfynol y Bargen Dwf Gogledd Cymru a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2020.

Rhoddodd y Rheolwr Arloesi ac Adfywio cyflwyniad yn crynhoi gwaith y Swyddfa Rhaglen yn ystod y 12 mis diwethaf a oedd yn cynnwys:

- Portffolio Bargen Twf
- Y Rhaglenni
  - Digidol
  - Tir ac Eiddo
  - Ynni Carbon Isel
  - Arloesedd mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
  - Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Adroddiad Blynyddol

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett a Patrick Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

I nodi Adroddiad Blynyddol Swyddfa Rheoli Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2020-21.

## 31. PECYN YSGOGI ECONOMAIDD CYNGHRAIR MERSI A'R DDYFRDWY

Cyflwynodd y Rheolwr Arloesi ac Adfywio adroddiad ar gefndir a chynnwys y Pecyn Ysgogi Economaidd Cynghrair Mersi A'r Ddyfrdwy a oedd yn cynrychioli cynnig i Lywodraeth Cymru a'r DU ar gyfer cyllid i ddarparu'r pum blaenoriaeth buddsoddi ar gyfer yr isranbarth. Roedd y camau nesaf i ddiffinio a blaenoriaethu'r prosiectau buddsoddi o fewn y pecyn cyn ymgysylltu â'r ddwy Lywodraeth. Mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni i sicrhau bod y pecyn a'r Cytundeb ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cyflenwi ei gilydd heb ddyblygu.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom i adroddiadau yn y dyfodol i gynnwys rhagor o wybodaeth ar oblygiadau'r cynllun 'HyNet' a rheoli rhyddhad ar gyfer Sir Y Fflint. Cynigiodd yr argymhelliad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys y Pecyn Ysgogiad Cyllidol ac yn cefnogi ei goethder a chyflwyniad i'r Llywodraethau perthnasol.

## 32. CYLLIDEB 2022/23 – CAM 2 GAN GYNNWYS TROSOLWG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y broses cyllideb gyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yr oedd gan y Pwyllgor arolygiaeth amdano. Yn dilyn gwaelodlin cadarn ar bwysau ar gostau a sefydlwyd yng Ngham 1 o ddatblygu'r gyllideb ym mis Gorffennaf, gwahoddwyd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i adolygu'n gadarn y pwysau sydd yn creu gofyniad cyllideb yn eu portffolio perthnasol. Ar ddechrau'r broses Cam 2, roedd adroddiad ar wahân yn yr agenda yn nodi'r pwysau o ran costau o fewn y Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Corfforaethol dan gylch gwaith y Pwyllgor.

Rhoddodd y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol gyflwyniad manwl a oedd yn cynnwys:

- Pwrpas a Chefndir
- Crynodeb o Gyfansymiau Pwysau Costau;
- Pwysau Costau Corfforaethol
    - Llywodraethu
    - Pobl ac Adnoddau
    - Cyllid Corfforaethol
- Datrysiadau Strategol
- Diweddariad ar Arbedion Effeithlonrwydd
- Amserlenni Cyllideb

Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Roedd crynodeb o'r pwysau yn rhagweld isafswm gofyniad cyllidebol ychwanegol o £16.749m o adnoddau refeniw yn 2022/23, roedd hyn yn amodol ar newid yn ddibynnol ar ganlyniad pwysau penderfyniad cenedlaethol sydd yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Yn y cam hwn, amcangyfrifwyd y gellir cyflawni £1.250m o arbedion effeithlonrwydd. Roedd y datrysiadau cyllideb strategol i gyrraedd cyllideb cyfreithiol a chytbwys yn ddibynnol yn bennaf ar ymgodiad blynyddol yn y Grant Cynnal Refeniw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Haydn Bateman, rhannwyd rhagor o wybodaeth ar fuddiannau o allu cynyddol mewn Iechyd Galwedigaethol i fodloni'r galw ac i ddarparu ffisiotherapi mynediad cyflym.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts bod dull ar y cyd yn cael ei gyflawni ar ofynion cyllid cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson am y sefyllfa genedlaethol sy'n newid a oedd yn cyfrannu at yr heriau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Patrick Heesom, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Haydn Bateman.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn:

(a) Nodi'r adroddiad ac yn cefnogi'r dull ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol;

(b) Derbyn pwysau o ran costau'r Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Corfforaethol, a

(c) Cynghori nad oes meysydd o arbedion effeithlonrwydd y mae'n credu y dylid edrych ymhellach.

## 33. ADRODDIAD TERFYNOL ASESIAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar ganfyddiadau Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol y Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn adolygiad o bob Cyngor ledled Cymru. Nid oedd angen ymateb ffurfiol gan fod yr adroddiad wedi cyflwyno adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y Cyngor a dim materion newydd i'w nodi. Cafwyd yr eitem er gwybodaeth yn unol â'r protocol i adroddiadau rheoleiddio.

Wrth gyflwyno'r canfyddiadau, croesawodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gydnabyddiaeth o 'strategaeth ariannol glir ac wedi'i rannu'n dda', perfformiad y gorffennol ar gyflawniadau arbedion effeithlonrwydd a gwariant i'w gymharu'r gyllideb. Amlygodd y sylwadau ar Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru i helpu i adfer incwm a gollwyd a defnydd y Cyngor o'r arian wrth gefn.

Dywedodd Matt Edwards bod yr adroddiad wedi dod i gasgliad o'r ail gam o'r gwaith asesu cynaliadwyedd ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2020-21 yn dilyn asesiad sylfaenol o'r effaith cychwynnol y pandemig yn 2019-20.

Dywedodd Gwilym Bury bod pob adroddiad cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, a bod adroddiad cryno cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nodwyd bod bwlch cyllid arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2022-23 yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg yr adolygiad ac wedi cynyddu ers hynny fel y nodwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Geoff Collett y swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol yn ogystal â'r Cynghorydd Paul Johnson a oedd yn falch nad oedd unrhyw argymhellion newydd i'r Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Andy Williams a Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a chadarnhau nad oes unrhyw faterion i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.

## 34. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (MIS 4) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2021/22 (MIS 4)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol a Rheolwr Cyllid eu hadroddiadau ar sefyllfa Mis 4 2021/22 ar gyfer Monitro Cyllideb Refeniw a Monitro Rhaglen Gyfalaf cyn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Monitro Cyllideb Refeniw

Roedd yr adroddiad yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ar hawliau a wnaethpwyd i gronfa galedi Llywodraeth Cymru (LlC) a fyddai wedi bod yn hanfodol yn ystod y cyfnod o argyfwng.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i ostwng pwysau costau a/neu i wella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd a rheoli cost - yn ddiffyg gweithredol o £0.739m miliwn (gan eithrio'r effaith y dyfarniad cyflog i'w fodloni gan y cronfeydd wrth gefn). Byddai'r sefyllfa yn gadael balans cronfa hapddigwyddiad o £5.057m ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd rhesymau dros y sefyllfa a ragwelwyd a nodwyd yn yr adroddiad ac yn cynnwys amrywiant sylweddol yng Ngwasanaethau Plant, Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

Rhoddwyd diweddariad ar y risgiau ariannol allweddol (gan gynnwys sefyllfa well ar gyfraddau casglu Treth Y Cyngor), cyflawniadau o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, a'r sefyllfa o ran yr arian wrth gefn a balansau a nodwyd yn yr adroddiad. Ar gronfeydd wrth gefn na glustnodwyd, nodwyd bod £2.1m o gyllid argyfwng Covid-19 yn parhau ar hyn o bryd yn dilyn dyraniad o £0.900m ar gyfer hawliau grantiau anghymwys sy'n berthnasol i Covid-19. Roeddynt yn aros am wybodaeth ar Gyllid Adfer Gofal Cymdeithasol LlC a fyddai'n gwneud iawn i ychydig o'r pwysau presennol o ran costau o fewn y portffolio hwn. Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad ar gyfer Mis 5.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai gorwariant arfaethedig o £0.495m miliwn yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo o £3.978m miliwn, a oedd yn uwch na'r canllawiau a argymhellwyd ar wariant.

Mewn ymateb i'r cwestiynau gan y Cynghorydd Haydn Bateman, rhoddodd y swyddogion gadarnhad ar feini prawf cyllid Colli Incwm ar gyfer taliadau meysydd parcio.

Gofynnodd y Cynghorydd Geoff Collett am ddadansoddiad pellach ar y gorwariant o £1.008m yn y Gwasanaethau Plant a dealltwriaeth a oedd disgwyl i'r pwysau hyn barhau. Cytunodd y Rheolwr Cyllid i gysylltu gyda chydweithwyr yn yr Adran Gofal Cymdeithasol i ddarparu ymateb i'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Geoff Collett a Haydn Bateman.

Rhaglen Gyfalaf

Y cyfanswm ar gyfer y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 oedd £77.136 miliwn, gan ystyried bod yr holl symiau a ddygwyd ymlaen ac arbedion yn trosglwyddo'n ôl i'r rhaglen. Roedd newidiadau yn ystod y chwarter olaf yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau ariannu grant ac ailbroffilio'r gyllideb.

Roedd y sefyllfa canlyniad arfaethedig yn £72.837m a oedd yn golygu tanwariant o £4.299 miliwn i Gronfa'r Cyngor a argymhellwyd i'w barhau ar gyfer cwblhau cynlluniau 2022/23. Cafwyd crynhoad o'r dyraniadau ac arbedion

ychwanegol a nodwyd yn y chwarter hwn ynghyd ag arian dros ben arfaethedig cyffredinol o £2.795 miliwn ar gyfer y rhaglen tair blynedd cyn cyflawni derbyniadau cyfalaf ychwanegol neu ffynonellau cyllid a nodwyd yn ystod y flwyddyn.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Haydn Bateman ac Andy Williams.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 (mis 4), bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi yn y Cabinet a

(b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro y Rhaglen Cyfalaf 2021/22 (mis 4), bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi yn y Cabinet.

## 35. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYFLOGAETH A'R GWEITHLU

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad gwybodaeth am y gweithlu a'u dadansoddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn 2021/22.

Wrth grynhoi'r meysydd allweddol, tynnodd yr Uwch-Reolwr sylw at effaith y tueddiadau cyflogaeth sy'n newid o ganlyniad i'r pandemig a oedd yn cael eu monitro'n ofalus. Yn ogystal mae'r diweddariad yn cynnwys cynlluniau i adnewyddu'r model gwerthuso ar gyfer 2022 i ganolbwyntio yn fwy ar werthoedd a llesiant, a'r ymgyrch recriwtio sydd yn digwydd yn yr Adran Gwasanaethau Stryd a Chludiant lle'r oedd disgwyl i allu lleihau gwariant ar weithwyr asiant yn y chwarter nesaf. Yn ogystal rhannwyd wybodaeth ar y lansiad llwyddiannus y rhaglen prentisiaeth ar gyfer 2021/22.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Haydn Bateman a Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer Chwarter 1, 2021/22 hyd 30 Mehefin 2021.

## 36. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 37. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried ac i nodi'r newidiadau canlynol:

- Adborth gan y Pwyllgorau Craffu a Throsolwg ar y Gyllideb 2022/23 – cyfarfod mis Hydref.
- Rhaglen Gyfalaf – cyfarfod mis Tachwedd

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; fel y'i diwygiwyd yn y cyfarfod; a

(b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 38. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.00pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**